

# DDYLECH WNEUD HYN GARTRE

gyda Marfin a Milo

Yr hyn sydd ei angen arnoch: • gwelltyn • ffrind  
• pren mesur • siswrn • tâp gludiog • soser o ddŵr

Yr her:



Codi'r dŵr o'r soser gan ddefnyddio gwelltyn ond heb sugno.

Cam 1.



Gan ddefnyddio eich pren mesur, torrwcwch eich gwelltyn yn ddau ddarn: un yn 3cm o hyd a'r llall yn 5cm o hyd.

Cam 2.



Unwch y darnau â thâp gludiog ar hyd un ochr fel eu bod yn llunio ongl 90 gradd, ond gadewch y ddau ben yn agored.

Gosodwch ben byrraf y gwelltyn yn y soser o ddŵr.



Nawr, chwythwch yn galed!

Felly, beth ddigwyddodd? Wel, pan fydd aer yn symud, bydd ei wasgedd yn gostwng. Felly, pan fyddwch yn chwythu, bydd gwasgedd yr aer ar frig y gwelltyn yn gostwng. Ond bydd gwasgedd yr aer dros y soser yn aros yr un fath, ac felly caiff dŵr ei wthio i fyny'r gwelltyn.



geiriau allweddol: gwasgedd aer, bernoulli